

TRYCHINEB HILLSBOROUGH



Y ddelwedd a ddarparwyd gan Gary and Sylvia Rogers

Ar 15 Ebrill 1989, cafodd rhai o'r cefnogwyr yn rownd gynderfynol yr FA rhwng Lerpwl a Nottingham Forest yn Stadiwm Hillsborough, Sheffield, eu gwasgu i farwolaeth. Wrth i'r cefnogwyr giwio yn barod ar gyfer y gêm, ceisiodd Heddlu De Swydd Efrog leihau'r niferoedd trwy agor allanfa a oedd yn arwain at ardaloedd a oedd wedi'u neilltuo ar gyfer cefnogwyr Lerpwl. Aeth miloedd o gefnogwyr i mewn i'r ardaloedd hyn, a oedd eisoes yn orlawn, gan arwain at eu gwasgu. Lladdwyd 97 o bobl ac anafwyd dros 700.

Ar ôl y digwyddiad, penderfynodd yr heddlu roi'r bai ar gefnogwyr Lerpwl, gan honni eu bod wedi defnyddio grym i agor y glwyd, a'u bod yn feddw ac yn afreolus. Cafodd yr honiadau hyn eu dwysáu gan bapurau newydd, yn cynnwys The Sun, a aeth ati i argraffu straeon ffug yn dweud bod y cefnogwyr wedi gwneud dŵr am ben yr heddlu a dwyn oddi ar y meirwon.

Methodd y cwest cyntaf ag ymchwilio'n ddigonol i'r ymateb brys, a dyfarnwyd bod y marwolaethau'n "ddamweiniol". Mewn gwirionedd, ni chymerodd yr heddlu na'r gwasanaeth ambiwlans sylw o ofid y dorf. Yn 2012, darganfu Panel Annibynnol Hillsborough y gellid bod wedi achub 41 o ddioddefwyr pe bai'r ymateb brys wedi bod yn fwy effeithiol.

Yn yr ail gwest (2014-2016), gwrthdrowyd y rheithfarn wreiddiol, sef "marwolaeth ddamweiniol", a dyfarnwyd bod y dioddefwyr wedi cael eu lladd yn anghyfreithlon.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
hillsboroughlawnow.org

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mesurodd swyddogion yr heddlu faint o alcohol a oedd yng ngwaed y dioddefwyr, yn cynnwys plant, i ategu eu stori mai meddwdod y cefnogwyr a achosodd y drychineb.

Yn 2012, darganfu Panel Annibynnol Hillsborough fod 116 o blith 164 o ddatganiadau'r heddlu (a gymerwyd ar ôl y drychineb) wedi cael eu haddasu er mwyn newid sylwadau a oedd yn negyddol tuag at Heddlu De Swydd Efrog. Mewn adroddiad a luniwyd yn 2025 gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, nodwyd bod 327 o ddatganiadau ffug wedi'u cyflwyno gan dystion.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

"Cafodd yr ymchwil am wirionedd a chyfiawnder ei llesteirio ac nid oes neb wedi'i ddwyn yn atebol... Ceir arwyddion clir o fethiannau gweithredol... ac ymdrechion dyfal i roi'r bai ar y cefnogwyr."

Y Gwir Barchedig James Jones, Esgob Lerpwl

"Roedd swyddogion yr heddlu'n gwybod pwy oedd yn gyfrifol ac yn atebol; eto i gyd, dywedwyd celwydd ar ôl celwydd"

Ian Byrne AS